Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

AGENDA

# *PWYLLGOR CYNLLUNIO*

***2.00 PM - DYDD GWENER, 2 HYDREF 2020***

***O BELL TRWY TEAMS***

**RHAID GOSOD POB FFÔN SYMUDOL AR Y MODD DISTAW AR GYFER PARHAD Y CYFARFOD**

**Rhan 1**

1. Datganiadau o fuddiannau

2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol *(Tudalennau 5 - 28)*

3. Gwneud cais am ymweliad(au) safle gan y ceisiadau a gyflwynwyd

**Adroddiad/Adroddiadau Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd**

**Adran A - Materion i'w Penderfynu**

**Ceisiadau Cynllunio wedi'u hargymell ar gyfer Cymeradwyaeth**

4. Cais Rhif. P2020/0294 - Glannau'r Harbwr *(Tudalennau 29 - 58)*
Adeiladu ffordd fynediad, gwaith lliniaru llifogydd, gwaith adfer halogi tir, gwella cynhwysedd llwyth y ddaear a gwaith cysylltiedig i hwyluso adfywio hen dir llwyd ar gyfer datblygiad masnachol yn y dyfodol ar Safle Cyflogaeth Strategol Glannau'r Harbwr, Glannau'r Harbwr, Port Talbot.

5. Cais Rhif. P2020/0505 - 2 Taillwyd Road, Mynachlog Nedd *(Tudalennau 59 - 64)*
Estyniad cefn un llawr yn 2 Taillwyd Road, Mynachlog Nedd, SA10 7DT.

**Adran B - Materion Er Gwybodaeth**

6. P2018/0493 - Cyrchfan Antur Cwm Afan - Diweddariad er gwybodaeth *(Tudalennau 65 - 78)*
   Cais cynllunio amlinellol (gan gynnwys mynediad) ar gyfer cyrchfan antur yn cynnwys 600 o gabanau gwyliau/fflatiau, gwesty â 100 gwely a sba cysylltiedig, plaza canolog yn cynnwys bwytai, gweithgareddau hamdden a siopau, gweithgareddau antur ac adeiladau cysylltiedig (gan gynnwys chwaraeon eithafol, llethrau sgïo/alpaidd, gweithgareddau yn y goedwig a *Trax & Trail*), bwytai ac adeiladau gweinyddol a chynnal a chadw cysylltiedig a pharcio ar gyfer oddeutu 850 o geir, yn ogystal â gweithrediadau tirlunio, draenio a pheirianneg cysylltiedig gan gynnwys ailbroffilio tir, triniaeth ffin, adeileddau cynnal, goleuadau allanol a theledu cylch cyfyng, a dargyfeirio hawliau tramwy cyhoeddus. Gwybodaeth ychwanegol a diwygiedig a dderbyniwyd ar 25/01/2019 a 07/02/2019 dan Reoliad 24 mewn perthynas â bioamrywiaeth, tirwedd ac effaith weledol, effaith economaidd gymdeithasol a thrafnidiaeth ynghyd ag addasiadau i'r prif gynllun a chynllun paramedrau, ar dir ym Mhen-y-bryn, Croeserw, y Cymer, Port Talbot.

7. Eitemau brys
   Unrhyw eitemau brys yn ôl disgresiwn y Cadeirydd yn unol ag Adran 100B(4)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**S.Phillips**
**Prif Weithredwr**

**Canolfan Ddinesig**
**Port Talbot** **Dydd Llun, 28 Medi 2020**

**Aelodaeth Pwyllgor:**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **S.Paddison** |
| **Is-Gadeirydd:** | **S.Pursey** |
| **Aelodau:** | Councillors C.J.Jones, D.Keogh, R.Mizen, S.Bamsey, R.Davies, S.K.Hunt, A.N.Woolcock, C.Williams, S.Renkes a/ac M.Protheroe |
| **Aelod Cabinet:** | Councillor A.Wingrave |

**Gwneud cais i siarad yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio**

Mae gan y cyhoedd hawl i fynd i'r cyfarfod ac annerch y pwyllgor yn unol â gweithdrefn gytunedig y cyngor sydd ar gael yn www.npt.gov.uk/planning**.**

Os hoffech siarad yn y Pwyllgor Cynllunio ynghylch cais yr adroddwyd amdano i'r pwyllgor hwn, mae'n rhaid i chi:

- Gysylltu â'r Gwasanaethau Democrataidd yn ysgrifenedig, naill ai drwy'r post yn: Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ, neu'n ddelfrydol drwy e-bostio: democratic.services@npt.gov.uk.
- Sicrhau eich bod yn gwneud eich cais i siarad ddau ddiwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod fan bellaf (erbyn 2pm ar y dydd Gwener blaenorol os yw'r cyfarfod ar ddydd Mawrth).
- Nodi'n glir rif yr eitem neu'r cais rydych am siarad amdani/o a chadarnhewch a ydych yn cefnogi'r cais neu'n ei wrthwynebu.
- Rhoi eich enw a'ch cyfeiriad (a fydd ar gael i'r cyhoedd oni bai fod rhesymau penodol dros gyfrinachedd).

Sylwer, dim ond un person sy'n gallu siarad ar ran pob 'categori' ar gyfer pob cais h.y. y gwrthwynebydd, y cefnogwr, yr ymgeisydd/asiant, y Cyngor Cymuned/Tref. Ceir manylion llawn yng ngweithdrefn gytunedig y cyngor.

Yn ogystal, os yw gwrthwynebydd yn dymuno siarad, hysbysir yr ymgeisydd/asiant gan y cyngor.

Os ydych yn dymuno trafod unrhyw agwedd ar siarad cyhoeddus, ffoniwch dîm y Gwasanaethau Democrataidd ar 01639 763313.

**Cyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio yr adroddir amdanynt i'r pwyllgor**

Os ydych yn dymuno cyflwyno sylwadau ar gais a gyflwynir i'r Pwyllgor Cynllunio hwn, sylwer bod rhaid i'r Adran Gynllunio dderbyn y rhain erbyn 2.00pm ar y dydd Gwener cyn cyfarfod y pwyllgor fan bellaf (yn seiliedig ar y cyfarfod dydd Mawrth arferol). Os nad yw'r cyfarfod ar ddydd Mawrth, dylid eu derbyn erbyn 2.00pm ar y diwrnod gwaith olaf ond un cyn y Pwyllgor Cynllunio fan bellaf.

Caiff sylwadau a dderbynnir yn unol â phrotocol y cyngor eu crynhoi a, lle y bo'n briodol, gwneir sylwadau arnynt ar ffurf Taflen Ddiwygio, a ddosberthir i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio drwy e-bost ar y noson cyn cyfarfod y pwyllgor, a'i chyflwyno ar ffurf copi caled yn y cyfarfod.